**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024**

Cystadleuaeth 90 – Deuawd neu Driawd Cerdd Dant 19-25 oed

**Y Big Issue, Idris Reynolds**

Yn fasged rôl basgedi
o'r siopau daw'n nwyddau ni,
ac yn eu mysg yno y mae,
yn ymwthiol 'mysg moethau
wedi'i roi fel afal drwg
yn dila, llwyd ei olwg.

Mae yno, ond nis mynnaf;
yn fy nhŷ ei finio wnaf
heb erioed ei agor bron.
Bwrir ef gyda'r sborion
yn daflen nas darllenir;
mae blas mor gas ar y gwir.

O ganfod yr anffodus
heibio'r af gan ffugio brys.
Y mae drysau'n cau'n y cof
a dawn y Lefiad ynof.
Ni thâl yr ymyrraeth hy.

Er hyn, rwy'n dal i'w brynu.